YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

Tymor y Hydref 2023

Dosbarth Y Bilidowcar

Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw tanio'r dychymyg trwy archwilio byd yr arwyr dychmygol ac arwyr go-iawn. Anelwn at ddatblygu dysgwyr hyderus a chreadigol a fydd yn medru cyfathrebu'n effeithiol er mwyn rhannu eu syniadau a chyflwyno gwybodaeth. Ein nod yw datblygu unigolion iach sy'n deall effaith eu penderfyniadau a'u gweithredoedd arnynt eu hunain ac ar eraill. Bwriadwn feithrin disgyblion a fydd yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniad a chyfrifoldebau eraill yn y gymuned. Erbyn diwedd yr uned ddysgu, hyderwn y bydd y disgyblion wedi eu hysbrydoli i fod yn ddinasyddion egwyddorol, ac yn barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn cymdeithas nawr ac yn y dyfodol.

# Bant â ni i gynllunio!

*Dysgu am Superted!*

*Trafod pwy sy'n arwyr i ni.*

Dysgu sut i gadw'n iach fel archarwr.

*Dysgu am bobl sy'n helpu yn ein cymuned . . .*

*Rydw i eisiau dysgu am arwyr Cymraeg*

*Rydw i eisiau siarad gyda gwahanol pobl sy'n helpu yn ein cymuned.*

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor y Hydref 2023

## Dosbarth Y Bilidowcar

# Ydy pob arwr yn gwisgo clogyn? Profwch hyn!

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

### Y Dyniaethau

- Trafod sut mae archarwyr wedi newid dros y blynyddoedd a dysgu am Superted, yr archarwr Cymraeg cyntaf.
- Trafod pwy sy'n arwyr i ni yn ein bywydau bob dydd.
- Dysgu am arwyr o Gymru.
- Dysgu am waith arwyr yn ein cymuned.
- Dysgu am draddodiadau Nadolig a pham fod y Nadolig yn bwysig i Gristnogion.

### Iechyd a Lles

- Dysgu am bwysigrwydd diet cytbwys a bwyta'n iach.
- Trafod gwneud dewisiadau cywir ac anghywir.
- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.
- Trafod gyrfaoedd a herio stereoteipiau.

### Y Celfyddydau Mynegiannol

- Astudio delweddau o archarwyr.
- Darlunio archarwyr dychmygol.
- Gwrando ar gerddoriaeth sy'n cael ei ddefnyddio i bortreadu archarwyr mewn cartwnau neu ffilmiau.
- Defnyddio'r holl sgiliau rydyn wedi dysgu i greu animeiddiad syml am ein archarwr dychmygol.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Defnyddio ystod o offer cyfrifiadurol yn ddiogel.
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy a sgiliau codio syml.
- Cynnal ymchwiliadau i effaith ymarfer corff ar ein cyrff.
- Dylunio, creu a gwerthuso addurn Nadolig.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu trwy gyfrif Hwb eich plentyn. Gweler cyfarwyddiadau ar dudalen dosbarth ar wefan yr ysgol.

Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a barddoniaeth.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau ffoneg a darllen yn Cymraeg a Saesneg.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan ganolbwyntio ar ysgrifennu **disgrifiadau, stribedi comic syml a chyflwyno gwybodaeth.**
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu yn Cymraeg a Saesneg.

### Mathemateg a Rhifedd

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd, a lluosi a rhannu.
- Defnyddio arian, ymarfer ein sgiliau mesur, astudio siap a datblygu ein sgiliau datrys problem a rhesymu.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.
- Casglu data a'i gyflwyno.